Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Cemaes
# Ysgol Cemaes
# Cemaes
# LL67 0LB

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Cemaes.  Mae'n cwrdd mewn caban hunangynhaliol ar safle Ysgol Gynradd Cemaes, yn awdurdod lleol Ynys Môn.  Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bedwar bore'r wythnos rhwng 8.50 y bore a 11.20 y bore yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 13 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair blwydd oed.  Ar hyn o bryd, mae llawer o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.  Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mai 2017.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2015.  Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Hydref 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr a diddorol sy’n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn bwrpasol
- ymarferwyr yn cynllunio’n drwyadl i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn effeithiol
- ymarferwyr yn gweithio’n ddiwyd â’i gilydd i ddarparu gweithgareddau ysgogol, sy’n creu dysgwyr hyderus
- addysgu deallus yr ymarferwyr yn effeithio’n gadarnhaol ar gynnydd y plant
- gan y lleoliad drefniadau llwyddiannus i gefnogi iechyd, lles ac anghenion y plant
- ymarferwyr yn defnyddio’r caban, yr ardal allanol ac adnoddau’r ysgol a’r pentref i fodloni disgwyliadau a diddordebau’r plant yn fwriadus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella’r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr arweinydd yn gosod cyfeiriad clir a chadarn i’r gwaith dyddiol a thymor hir
- yr ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol i wireddu’r weledigaeth strategol a’r bwriadau pwrpasol sy’n bodoli
- y pwyllgor rheoli yn cefnogi a herio’r lleoliad yn ddoeth i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant
- gweithdrefnau hunanarfarnu trefnus a chywrain sy’n arwain at osod targedau defnyddiol i wella’r ddarpariaeth
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant gwerthfawr gan asiantaethau allanol i wella’u medrau personol er lles y plant
- partneriaethau pwrpasol ag asiantaethau arbenigol, rhieni a gofalwyr a busnesau lleol
- trefniadau effeithiol yn bodoli i drosglwyddo’r plant i’r ysgol ac i dargedu’r camau nesaf yn eu haddysg yn bwrpasol
- yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n gwneud defnydd effeithiol o gyllid a grantiau i greu gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod trefniadau grwpio'r plant yn galluogi pob plentyn i gymryd rhan weithredol ymhob gweithgaredd

A2 Amseru'r sesiynau torfol yn fwy effeithiol er mwyn cynnal diddordeb pob un plentyn

A3 Gwella cyfleoedd i bob plentyn ddatblygu eu hannibyniaeth yn ystod amser byrbryd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, na'u lles. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr a diddorol sy'n bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn bwrpasol. Maent yn darparu gweithgareddau a phrofiadau dysgu ysgogol, sy'n targedu anghenion a diddordebau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio ar gyfer y cwricwlwm dyddiol a thymor hir yn effeithio'n dda ar brofiadau'r plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i gymysgu pridd, pasta a cheirch yn y gegin fwd i greu cacennau, a phlannu tatws, perlysiau a blodau haul er mwyn trafod a chymharu'r tyfiant. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr hyderus ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n drefnus a thrwyadl i sicrhau dilyniant, parhad a chynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys heriau i ddatrys problemau gyda chyfarpar mathemategol, fel defnyddio poteli gwahanol yn y dŵr i gymharu cyfaint a darganfod llythrennau gwahanol ar fwrdd i lenwi blychau yn eu henwau. Mae'r gweithgareddau'n adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant. Maent yn deillio o'u dewisiadau personol a'u penderfyniadau mewn grŵp. O ganlyniad, mae'r tasgau dyddiol a ddarperir, ar draws yr holl feysydd dysgu, yn herio'r plant i berfformio ar eu gorau'n gyson, naill ai'n annibynnol neu o dan arweiniad ymarferwyr.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, chwaraewr cryno ddisg, camerâu a meicroffon. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn bwrpasol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau'n llwyddiannus i gyfatebu â'r themau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod bod medrau Cymraeg llawer o'r plant ar lefel isel pan fyddant yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn mynd i'r afael â hyn yn syth drwy fodelu geiriau, rhifau, lliwiau, trafod y tywydd, ailadrodd ymadroddion syml a chanu hwiangerddi yn rheolaidd. O ganlyniad, mae dealltwriaeth llawer o'r plant o'r iaith yn datblygu'n gyflym.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r pentref fel olrhain hanes y traeth a'r arfordir.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol yn fwriadus wrth ganolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol, meddwl a chreadigol y plant. Maent yn gweithio'n ddiwyd â'i gilydd i ddarparu gweithgareddau llwyddiannus, sy'n cymell y plant i gydweithio a dysgu'n ymarferol. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson i yrru'n fywiog ar feiciau a cherbydau, trafod creaduriaid y môr fel cimwch, seren fôr a chranc a blasu bwydydd Tsieineaidd ac Eidaleg.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn gan y plant o'u hardal wledig, y traeth, y môr a busnesau'r pentref. Mae'r ddarpariaeth i godi ymwybyddiaeth y plant o bobl eu cymuned yn dda trwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad, fel y glanweithydd deintyddol ac arbenigwyr byd natur.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn llwyddiannus ym mhob gweithgaredd a ddarperir ar eu cyfer.

Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn ddeallus ac yn rheolaidd sy'n effeithio'n gadarn ar eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt drin a thrafod nodweddion creaduriaid y môr a sut i ddefnyddio arian i brynu hufen iâ yn y parlwr hufen iâ. Fodd bynnag, mae cyflwyniadau torfol yn colli cyflymder ar adegau ac mae'r plant yn eistedd am gyfnodau hir yn gwrando ar yr ymarferydd. O ganlyniad, mae ychydig iawn o blant yn colli diddordeb yn y trafodaethau a bwriad y sesiwn.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn gyson trwy dasgau ffocws ac wrth i'r plant weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol dros ben wrth iddynt fodelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog. Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth gadarn o ba bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu diddori ymhellach a'u cymell i lwyddo. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy chwarae. Gwelir hyn wrth i blant ddyfalbarhau i gyfatebu lluniau yn ystod gêmau bwrdd a thrwy lifo dŵr o'r dde neu'r chwith drwy bibellau a chafnau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant ac awydd y plant i ddysgu yn uchel.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau diogelwch diwyd yn perthyn i'w gwaith. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn grwpio'r plant yn gwbl effeithiol ar bob achlysur. O ganlyniad, mae'r plant hŷn yn tueddu rheoli grwpiau'n ormodol ac felly'n amharu ar gyfleoedd dysgu'r plant eraill.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn sefydlog a chadarn. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau'n rheolaidd a chyson. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio asesiadau dyddiol i nodi'r camau nesaf yn nysgu plant unigol yn effeithiol ac yn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddoeth i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae'r deialog dyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr a'r llyfrynnau sydd ar gael iddynt ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, yn atgyfnerthu hyn yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gweithgareddau penodol fel chwarae rôl yn y parlwr hufen iâ yn llwyddiannus i ganolbwyntio ar deimladau eraill a sut i drin pobl mewn sefyllfaoedd cyhoeddus. Drwy wneud hynny, mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn ddeallus. O ganlyniad, mae arferion dyddiol y lleoliad yn fuddiol i'w ethos cyffredinol a'r gweithgareddau sy'n digwydd ar y cyd, fel amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo'n ddyddiol. Mae'r defnydd o 'helpwr y dydd' yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o amser byrbryd yn ddigon rheolaidd i ddatblygu annibynniaeth y plant yn gwbl effeithiol.

Mae gan y lleoliad drefniadau cynhwysfawr i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach ac, o ganlyniad, mae plant yn deall bod ffrwythau, llysiau a chadw'n heini yn rhan bwysig o ddiet synhwyrol a bywydau iachus. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, plastig, bwyd a cherdyn. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch ac ymddygiad anghwrtais. O ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni'r oedolion. Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi unrhyw blentyn ag anghenion ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos ac yn arsylwi plant yn ofalus wrth nodi unrhyw bryderon. Maent yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol trwy gyfathrebu â rhieni a derbyn cyngor gan asiantaethau arbenigol i helpu symud ymlaen ag ymyrraeth benodol. Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion ffurfiol i'w helpu i olrhain cynnydd y plant yn drylwyr ac yn rhannu'r wybodaeth gyda'r rhieni a'r ysgol leol yn ddeallus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos gofalgar. Mae'r ymarferwyr yn mabwysiadu agweddau cadarnhaol ac mae eu gweithgareddau dyddiol yn anelu'n gyson at greu amgylchedd ysgogol i'r plant yn yr adeilad a thu allan. Maent yn darparu cymuned gynhwysol, lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r meysydd dysgu a'r cyfarpar sydd ar gael. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cydnabod unigolrwydd ac anghenion y plant yn effeithiol.

Mae pwyslais cadarn gan bob ymarferydd ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn llwyddiannus drwy ddathlu gwyliau gwahanol ledled y byd, fel y Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd a darparu doliau o wahanol gefndiroedd ethnig yn yr ardal chwarae rôl.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n dda i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r ystod eang o adnoddau ar gael i bob plentyn ddewis, eu defnyddio a'u rhoi heibio. Mae hyn yn hyrwyddo'u dealltwriaeth o gyfrifoldeb yn effeithiol. Yn ystod gweithgareddau o dan arweiniad oedolyn a gweithgareddau lle y mae'r plant yn gweithio'n annibynnol, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o'r adnoddau dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Gwelir hyn wrth iddynt wneud marciau a defnyddio'u medrau mathemategol yn ymarferol yng ngweithgareddau'r lleoliad, fel yr ardal adeiladu, y gegin fwd a'r ardal beintio.

Mae'r caban a'r ardal allanol yn hunangynhaliol ac o ansawdd safonol, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddiwyd. Mae'n ddiogel ac mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau'r ysgol yn fanwl ynglŷn â diogelwch y safle. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfleoedd buddiol i blant dyfu planhigion yn ogystal â chyfarpar ymchwiliol fel dŵr, tywod a'r ardal lan y môr. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer defnyddio ardaloedd eang yr ysgol, sy'n cynnwys caeau ac ardaloedd natur, ar gyfer chwarae bywiog, ymholi ac ymchwilio.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn amser byr, mae'r arweinydd wedi llywio cyfeiriad pwrpasol ac wedi sefydlu arferion cyson i weithdrefnau dyddiol y lleoliad. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gydag ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. Maent yn llwyddo i gymell y plant i wella'u gwaith yn gyson mewn ffyrdd synhwyrol a chefnogol, trwy eu haddysgu deallus. O ganlyniad, mae'r weledigaeth fwriadus yn sicrhau bod y cynllunio, yr addysgu a'r gofal yn effeithio'n dda ar brofiadau a deilliannau'r plant.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Mae hi a'r ymarferwyr wedi creu gwelliannau buddiol i'r ddarpariaeth trwy werthusiadau a thargedau pwrpasol. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â miniogi'r asesu yn effeithiol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr, trwy eu cynllunio wythnosol, yn ffocysu ar gynnig gweithgareddau ysgogol i'r plant. O ganlyniad, maent yn creu newidiadau buddiol i'r ardaloedd dysgu, tu mewn i'r adeilad a thu allan, i herio'r plant i berfformio ar eu gorau. Er enghraifft, maent yn ysgogi'r plant trwy greu ardaloedd darllen, cerddoriaeth â theclynau'r gegin ac ardal blannu. Mae'r arweinydd hefyd yn canolbwyntio'n drylwyr ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a difyr. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr

yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson. Mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r pwyllgor rheoli'n herio'r arweinydd a'r ymarferwyr yn dda i gynnal a gwella'u harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth defnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm ac maent yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl ac effeithiol dros ben.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau a diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r agweddau sydd angen eu newid yn ystyrlon ac er lles y plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio holiaduron yn effeithiol ar gyfer rhieni a'r plant ac yn gweithredu ar y canfyddiadau'n ddoeth. Mae'r arferion hyn o fudd i'r lleoliad ac yn sicrhau darlun llawn o'r dysgu, y ddarpariaeth a'r gweithdrefnau rheolaethol. O ganlyniad, mae'r trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â bywyd y lleoliad yn creu gwelliannau ac yn gwella'r profiadau dysgu.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro safonau'r plant, y ddarpariaeth a'u rolau ym mywyd dyddiol a thymor hir y lleoliad. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol i adnabod cryfderau a materion i'w gwella yn fwriadus. Mae manylder yr arferion hyn yn sicrhau cyswllt agos rhwng yr hunanarfarniad a'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau i wella ansawdd yn arwain at newidiadau pwrpasol, sy'n sicrhau cynllunio strategol, buddiol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Maent yn barod i dderbyn syniadau newydd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Mae'r cyngor ar sut i drefnu'r ardaloedd yn yr ardal allanol, ynghyd â darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y meysydd dysgu, wedi gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. O ganlyniad, maent wedi creu amgylchedd dysgu effeithiol, yn yr adeilad a thu allan.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles y plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i gefnogi'r hyfforddiant a'r ddogfennaeth. Maent felly'n cynghori ar faterion rheolaethol yn synhwyrol ac mae'r lleoliad yn gweithredu ar eu cyngor yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain yn effeithiol ar faterion i wella'r lleoliad, trwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.

Mae'r arweinydd yn cynnal cyfarfodydd cyson â'r ysgol i gefnogi trosglwyddo'r plant i'r ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn drefnus ac yn gadarn ac yn adeiladu ar gynnydd y plant yn dda. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol ynghyd â'r ysgol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn dda iawn ac yn cynnwys digwyddiadau llwyddiannus i godi arian fel teithiau cerdded a chynigion llwyddiannus am gyllid grantiau o fusnesau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys derbyn ac addasu'r caban a chynyddu'r cyfarpar allanol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar wella pob agwedd ar waith y lleoliad. Mae gwaith dyddiol yr ymarferwyr yn ddeallus ac mae'r arweinydd yn dyrannu dyletswyddau'n effeithiol. Mae'r arweinyddiaeth gref yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus i fodloni anghenion y plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae cymuned ddysgu gadarn wedi'i sefydlu, sydd â diwylliant o gydweithio effeithlon rhwng ymarferwyr a phartneriaid y lleoliad.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn drwyadl ac yn sicrhau profiadau dysgu ac arferion addysgu cadarnhaol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys newid y gweithgareddau yn yr adeilad a'r ardal allanol yn aml i sbarduno'r plant wrth iddynt ymroi i wahanol themâu a heriau penodol.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb a grantiau yn llwyddiannus. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddeallus. Maent yn creu gwelliannau rheolaidd ac yn gwella'r cyfleusterau angenrheidiol fel y toiledau a'r gegin trwy drafod a blaenoriaethu cyllid penodol yn ddoeth. O ganlyniad, mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian oherwydd y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |